Atodiad 1


Rhaglen Moderneiddio Addysg yr Adran Addysg a Phlant
Siart Llif Eglurhaol ar gyfer Cynigion Statudol
Cyngor Sir Gâr
Carmarthenshire County Council
CYFNOD 0
Adolygiad
Hyd at 2 fis
Cam 0- Nodi'r ysgol sydd angen newid i'r ddarpariaeth e.e. fesul Awdurdod Lleol, Corff Llywodraethu ac ati.
Cam 0.1- Dadansoddiad wedi'i gwblhau.
Cam 0.2 – Dogfen Ymgynghori Drafft wedi'i lunio.
Trafodaeth Lunio Rhanddeiliaid (dim ymghynghoriad)
Hyd at 2 fis
Cam 0.3 – Cychwyn trafodaethau gya'r Aelod Lleol/Pennaeth/Corff Llywodraethu llawn gan gynnwys ymddiriedolwyr/ corff crefyddol os oes angen, i helpu lunio cynigion i ymghynghori yn eu cylch yn ddiweddarach.
CYFNOD 1
Caniatâd i fwrw ymlaen
Hyd at 2 fis
Cam 1.1– Dogfen Ymgynghori Ddrafft ac adborth y trafodaeth cychwynnol â rhanddeiliaid, a gyflwynwyd i'r Pwyllgor Craffu - Addysg a'r iaith Gymraeg.
Cabinet yn penderfynu a ddylid bwrw ymlaen i ymgynghoriad ffurfiol.
Pwyllgor Craffu Addysg a'r Iaith Gymraeg
Penderfyniad Cabinet
Na
Cynnig yn dod i ben
Ie
Ymgynghoriad
Cam 1.2 – Ymgynghoriad ffurfiol yn cychwyn,cyhoeddi'r Ddogfen Ymgynghori. Darperir Dogfen Ymgynghori i ymgynghoreion a rhoddir 42 diwrnod iddynt ymateb, gydag o leiaf 20 diwrnod yn ddiwrondau ysgol.
Cynnal ymgynghoriad gyda phlant a phobl ifanc. Fel gofyniad sylfaenol, rhaid i hyn gynnwys ymgynghori â chynghorau ysgol yr ysgolion yr effeithir arnynt.
Rhoi'r ddogfen ymgynghori i'r Pwyllgor Craffu Addysg a'r Iaith Gymraeg i'w hystyried
Cam 1.4 – Dadansoddi ymatebion yr ymgyngoreion, llunio Adroddiad Ymgynghori gyda chrynodeb o sylwadau'r ymgyngoreion ac ymatebion yr Awdurdod Lleol
Cam 2.1 - Cabinet yn ystyried yr Adroddiad Ymgynghori.
. Rhaid cyhoeddi Adroddiad Ymgynghori ar wefan yr Awdurdod sy'n crynhoi pob un o'r mater(ion) a godwyd gan ymgyngoreion ynghyd ag ymatebion yr Awdurdod i'r mater(ion) a godwyd o leiaf bythefnos cyn cyhoeddi Hysbysiad Statudol.
Cabinet yn penderfynu a ddylid bwrw ymlaen i Hysbysiad Statudol
CYFNOD 2
Penderfyniad Cabinet
Na
Cynnig yn dod i ben
Ie
Yn parhau ar y dudalen nesaf..
Yn parhau ar y dudalen nesaf..


Parhad o dudalen 1..
CYFNOD 2
CYFNOD 3
Gweithredfnau Statudol
Gweithredu
Cam 2.2 - Hysbysiad Statudol wedi'i gyhoeddi a'i ddarparu i'r holl randdeiliaid gofynnol. Cyfnod Gwrthwynebu o 28 diwrnod yn dechrau. Rhaid cyhoeddi cynigion o fewn 26 wythnos i ddiwedd y cyfnod ymgynghori a ganiateir ar gyfer ymatebion i'r ymgynghoriad, fel arall bydd y cynnig yn dod i ben a bydd angen ymgynghoriad newydd.
Cam 2.3 – Lle bo'n briodol, bydd y Cabinet yn ystyried Adroddiad Gwrthwynebu sy'n crynhoi'r gwrthwynebiadau ac ymatebion yr Awdurdod Lleol iddynt.
Rhaid cyhoeddi'r Adroddiad Gwrthwynebu (lle bo'n briodol) o fewn 7 diwrnod wedi dyddiad y penderfyniad.
Cabinet yn rhoi argymhelliad I'r Cyngor Sir ynghylch penderfynu a ddylid cymeradwyo'r cynnig ai peidio.
Cabinet
Cam 3.1 – Y Cyngor Sir yn ystyried y cynnig a'r Adroddiad Gwrthwynebu (lle bo'n briodol) ac yn gwneud penderfyniad.
Rhaid gwneud penderfyniad o fewn 16 wythnos (112 diwrnod) i ddiwedd y cyfnod gwrthwynebu.
Penderfyniad y Cyngor Sir
Na
Cynnig yn dod i ben
Cam 3.2a- Od yw'r cynnig yn gofyn am benderfyniad gan Weinidogion Cymru (addysg chweched dosbarth), rhaid i'r cyigydd anfon at Weinigogion Cymru o fewn 35 diwrnod i ddiwedd y cyfnod gwrthwynebu.
Bydd Gweinidogion Cymru fel arfer yn penderfynu ar gynigion o fewn 16 wythnos i ddiwedd y cyfnod gwrthwynebu.
Pan fydd cynnig yn effeithio ar addysg 6ed dosbarth, caiff ei gyfeirio at Weinidogion Cymru waeth beth fo'r gwrthwynebiadau sy'n dod i law.
Ie
Cam 3.2b -
O fewn 28 diwrnod i benderfyniad yr awdurdod lleol, gellir cyfeirio cynigion at Weinidogion Cymru drwy'r canlynol:
1. Awdurdod lleol arall
2. Y corff crefyddol priodol ar gyfer unrhyw ysgol yr effeithir arni (yr awdurdod esgobaethol)
3. Corff Llywodraethu ysgol wirfoddol neu ysgol sefydledig
4. Ymddiriedolaeth sy'n dal eiddo ar ran ysgol wirfeddol neu ysgol sefydledig
5. Sefydliad addysg bellach y mae'r cynigion yn effeithio arno
Cam 3.3 – Rhaid cyhoeddi llythyr penderfyniad yn electronig ar y wefan a rhaid rhoi gwybod i randdeiliaid drwy lythyr neu e-bost bod y penderfyniad ar gael.
Cam 3.4 – Dim yn orfodol – Hysbysir rhieni/gwarcheidwaid am benderfyniad yr Awdurdod Lleol/Gweinidogion un tymor cyn gellir gweithredu'r cynnig (e.e. Er mwyn gweithredu cynnig o ddechrau tymor yr hydref, rhaid rhoi hysbysiad cyn diwedd tymor y gwanwyn blaenorol)
Cam 3.5 – Yr Awdurdod Lleol yn gweithredu'r cynnig yn unol â'r dyddiad a roddir yn yr hysbysiad statudol, neu unrhyw ddyddiad diwygiedig dilynol (gan gynnwys oedi, cyflymu neu roi'r gorau i gynnig)